



Polisi Teledu Cylch Cyfyng

Cynnwys

1. Perchnogaeth
2. Cydymffurfiaeth
3. Diben
4. Disgrifiad
5. Gweithredu
6. Cadw Gwybodaeth
7. Mynediad
8. Adborth



1. Perchnogaeth

Mae'r Sw Fynydd Gymreig yn gweithredu system gamerâu teledu cylch cyfyng. Caiff delweddau eu monitro'n ganolog gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gweinyddu. Mae'r system yn eiddo'n gyfan gwbl i'r Sw Fynydd Gymreig.

2. Cydymffurfiaeth

Mae'r delweddau a geir o'r system yn cynnwys pobl adnabyddadwy ac yn dod o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â pholisi preifatrwydd Y Sw Fynydd Gymreig (dolen).

Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gweinyddu yw'r rheolydd data cofrestredig.

3. Diben

Pwrpas cofrestredig Y Sw Fynydd Gymreig o ran prosesu data personol drwy'r system yw atal troseddau. Caiff hyn ei ddiffinio ymhellach yn y gofrestr fel a ganlyn. Defnyddir teledu cylch cyfyng i gynnal diogelwch eiddo ac adeiladau ac i atal ac ymchwilio i droseddau. Gellir ei ddefnyddio hefyd i fonitro staff pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau. Am y rhesymau hyn gall yr wybodaeth a brosesir gynnwys delweddau gweledol, ymddangosiad ac ymddygiad personol. Gallai'r wybodaeth hon ymwneud â staff, cwsmeriaid a chleientiaid, troseddwy'r a throseddwy'r dan amheuaeth, aelodau o'r cyhoedd a'r rhai y tu mewn, sy'n mynd i mewn i, neu rai sydd yng nghyffiniau'r ardal o dan wyliaidwriaeth. Os yw'n angenrheidiol neu'n ofynnol, caiff yr wybodaeth hon ei rhannu â'r testunau data eu hunain, gweithwyr ac asiantiaid, darparwyr gwasanaethau, heddluoedd, sefydliadau diogelwch ac unigolion sy'n cynnal ymholiad.

Mae manylion ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. www.ico.org.uk

4. Disgrifiad

Bwriadwyd y system ar gyfer cynhyrchu delweddau clir at y dibenion a nodir. Mae camerau wedi'u lleoli mewn mannau dynodedig ar hyd ystâd y Sw Fynydd Gymreig, yn enwedig yn y mynedfeydd yr allanfeydd a'r siop.

Ceir arwyddion mewn gwahanol fannau, yn enwedig ger y mynedfeydd i'r ystâd a'r allanfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff ac ymwelwyr bod teledu cylch cyfyng yn weithredol.

5. Gweithredu

Caiff y delweddau sy'n cael eu cipio gan y system eu cofnodi'n barhaus a'u monitro gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gweinyddu. Ni ellir gweld delweddau o'r tu allan i'r Swyddfa lle mae mynediad yn gyfyngedig.

6. Cadw Gwybodaeth

Bydd delweddau yn cael eu storio yn unig ar gyfer y diben a nodwyd a chânt eu dileu pan na fydd eu hangen mwyach ar gyfer y diben a nodwyd.



7. Mynediad

Mae mynediad at ddelweddau yn gyfyngedig i'r rhai sydd ei angen. Dim ond yn unol â dibenion y system y caiff gwybodaeth ei datgelu.

Mae gan y testunau sy'n cael eu recordio yr hawl i ofyn am gopi mewn cais am fynediad at wybodaeth gan y testun yn ddibynnol ar gydymffurfiaeth â Diogelu Data. Mae ganddynt hefyd yr hawl i ofyn ar i ddata anghywir gael ei ddileu neu ei gywiro. Mae gweithdrefnau ar waith i brosesu ceisiadau am fynediad at wybodaeth a dylid eu gwneud i:

Rheolwr Data
Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru
Y Sw Fynydd Gymreig
Bae Colwyn
Conwy
LL28 5UY

Fersiwn	2018
Awdur	Swyddog Data
Cymeradwywyd gan	Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gweinyddu
Dyddiad Cymeradwyo	Gorffennaf 2018
Lleoliad Cadw	Swyddfa Weinyddu'r Sw
Dyddiad adolygiad nesaf	Gorffennaf 2020